

# TORIAD DYDD

DRAMA MEWN UN ACT

GAN

D. T. DAVIES

(Awdur "CASTELL MARTIN," "BLE MA FA,"  
"Y PWYLLGOR," &c., &c.)



GWASG ABERYSTWYTH  
MCMXXXII

# TORIAD DYDD

---

## GOLYGFA

*Cegin gweithiwr yn y Deheudir. Lle tân ar y dde, o du'r gynulleidfa, ffenestr yn y pared cefn a drws i'r dde iddi. Drws i'r llofft ar y chwith. Pan gwyd y llen, y mae'r tad yn gwisgo'i goler o flaen drych bychan ar y mur. Daw'r ferch i mewn ar y chwith. Y mae'r fam yn eistedd wrth y tân.*

---

TAD : Where's that crotyn tonight agen ?

MAM : I dunno, I'm sure. Playing football I expect. Cato'n pawb, wech o'r gloch, and 'e avent been 'ome to 'ave 'is tea yet !

TAD : I'll give 'im football when 'e comes in !

MERCH (*yn gosod ei llyfrau ar y burdd*) : Oh dear, I've got a lot of homework tonight.

MAM : Well you better go upstairs to do it. There wont be much peace for you when your brother comes in.

MERCH : And I've got Welsh homework.

TAD : 'Ow are you getting on with the Welsh ?

MERCH : Not very well. The homework is difficult.

TORIAD DYDD

TAD: You can't expect to be in a County School, my gel, and not 'ave any 'omework to do.

MAM: I don't see much sense in you learning Welsh anyway. Mrs. Jones' daughter is doing French and that will be much more useful for 'er.

MERCH: Will it?

MAM: Of course it will. "Will it," indeed. Don't be so twp gel.

MERCH: How will it be more useful, mam?

MAM: Better eddication, my gel, better eddication.

MERCH: How?

MAM: You clear off upstairs and don't 'ave so much to say.

TAD: Nawr Marged, ddyset ti ddim troi ar y groten felna. Y mae hi'n gofyn cwestiwn eitha teg.

MAM: Y mae'n bryd troi arni. Y mae wedi mynd yn hir iawn i thafod oddiar mae hi yn y County School yna.

MERCH: I suppose you're talking about me now, are you? You might let me know what you are saying.

MAM: You go upstairs and do your work and never mind wot we are saying.

MERCH (*yn cydio yn ei llyfrau*): There was a man in our school today and he came to our class. I think he was the director.

TORIAD DYDD

TAD: Examination, was it?

MERCH: No; he'd called to see about the Welsh.

MAM: And wot did 'e 'ave to say?

MERCH: He wanted to know how many girls spoke Welsh at home.

MAM: Busybody, and wot did that 'ave to do with 'im?

TAD: Did you put your 'and up?

MERCH: No, I didn't.

MAM: Quite right too. It's no business of 'is.

MERCH: Then he wanted to know how many girls there were who did not speak Welsh but who had Welsh-speaking parents.

TAD: Oh 'e did, did 'e? They are making a bit of a fuss about the Welsh now then, are they? Wot else did 'e ask?

MERCH: He asked me if I ever heard my father and mother speak Welsh.

MAM: Did 'e, indeed? Wot did you say?

MERCH: I said that you spoke Welsh whenever there was anything you didn't wish me to understand.

MAM (*yn mcydwyllt*): You told 'im that! (*yn cydio yn ysgwyddau'r ferch ac yn dechrau ei hysgwyd*) you little—

TAD (*yn llym*): Marged! gad y groten yn llonydd! (*y wraig yn atal ei llaw*). Wnaeth hi ddim ond dweyd y gwir. (*Yn cysuro'r ferch*). Dyna, dyna, don't cry, don't cry. Did 'e ask you anything else?

MERCH: Yes. He asked if I'd like to be able to speak French.

MAM: There's some sense now wotever.

MERCH: I said yes.

MAM: Course you did, name of goodness.

MERCH: Then he said, "If you wished to be able to speak French and your parents were able to speak French, wouldn't you try to get them to speak French to you?"

MAM (*yn ddifeddwl*): Of course you— (*yn sefyll yn ddisymwrth i ystyried*).

TAD: Ha, ha. Dyna ti wedi doddi dy droed yndi'n bert iawn o'r diwedd. Ar fengoeh i, deryn yw'r director yna. (*Wrth y ferch*): That's all right, you go and do your work now.

MERCH: But I want you to help me.

TAD: Me 'elp you! 'Ow can I 'elp you?

MERCH: With my Welsh homework. I can't get my mutations right.

TAD: Mut— — what did you say?

MERCH: Mutations.

TAD: Wot on earth are they?

MERCH: Our Welsh mistress said that you could help me.

TAD: 'Ow could she say that?

MERCH: She has spoken to you several times, hasn't she?

TAD: Yes, once or twice.

MERCH: Well, she says that your mutations are very good.

TAD: My mutations! Wot ever are you talking about?

MERCH: Dear, dear; don't you understand—it's just the way you speak Welsh.

TAD: Oh yes, I can talk Welsh all right.

MERCH (*yn agor llyfr sgrifennu*): Now look at that sentence. Have I got it right?

TAD (*yn syllu'n galed*): Is this the kind of Welsh they learn you at school?

MERCH: No, no. That is a sentence I've had to make myself. Is it right?

TAD: Right indeed. You read it out loud yourself and then you'll see how right it is.

MERCH (*yn darllen*): Y mae dau dyn ar y pont.

TAD: Don't it sound funny to you?

MERCH: No.

MAM: You must be very twp if you can't see where that is wrong.

TAD: Cymer bwyll, Marged, rho gyfle iddi.

MERCH: Can you put it right, mam?

MAM: Of course I can. Y mae dau ddyn ar y bont.

MERCH (*yn adrodd y frawddeg yn araf*): Y mae dau ddyn ar y bont. But why is it ddyn and why is it bont?

MAM: Because that's the right thing to say, of course.

MERCH: Yes, yes. But why is it right?

MAM: Don't ask such silly questions, gel. You might as well ask why twice two is four.

MERCH: You don't understand what I mean. How do you know when to say ddyn o'r bont? *GT*

TAD: Quite right, Morfudd, I'll try to think that out for you. You go on with something else now. I've got to go and find that young rascal, Tommy. I'll help you with your Welsh later on.

MERCH: Very well. (*Yn cydio yn ei llyfrau ac yn mynd allan. Saif y tad ar ganol y llawr gan synfyfyrrio ac ymhen tipyn edrych ar ei wraig*).

TAD: Marged, we must try to answer that question.

MAM: Rubbish, what is there to answer about it?

TAD: Pont, pont - - - y bont - - - why do we change pont to bont? (*yn eistedd wrth y tân*).

MAM: Because we do, of course.

TAD (*yn gafaelyd yn y pocer*): Pocer, pocer - - - y bocer, nage, nage!

MAM: Y bocer! Don't be so soft, y pocer to be sure.

TAD: Quite right, but why don't we change that?

MAM: Because we don't, of course. I can't see what there is to bother about. Go and see if you can find that boy somewhere.

TAD (*yn codi*): E'll know something about it when I meet 'im. 'Ullo, 'ere 'e 'is.

(*Teflir y drws yn agored yn ddisymwth a rhuthra TOMI i mewn*).

MAM (*ag un anadl*): Daddy, daddy, Billy Morris' bitch 'ave got five pups and 'e's willing to sell one for half a crown.

TAD: Pups is it? (*yn fygythiol*) pups! I'll give you pups. Where have you been? Look at that clock—'alf past six.

MAM: There's no tea for you tonight, my lad.

MAM: I've 'ad tea.

MAM: In the name of goodness, where?

MAM: In school. Didn't I tell you? We've got a Cymdeithas Gymraeg in our school now. Councillor Morgan started it off today by giving us a tea.

MAM: Shôn Morgan—that old skinflint!

TORIAD DYDD

TAD: Hanner munud, Marged, hanner munud. Os yw Shôn Morgan wedi rhoi te i blant yr ysgol, fe elli di fentro fod yna rywbeth mwy na'r cyffredin yn bod. Now Tomi, tell us all about it.

MAB: You know that we are all learning Welsh in school now.

TAD: Oh. 'Ow long 'ave you been doing that?

MAB: Since the holidays.

TAD: Let's 'ear you saying something. What can you say?

MAB: Heaps and heaps (*yn ysgwyd ei fys ar ei dad a'i fam*). You wait, both of you. Before very long, you won't be able to say things in Welsh when you don't want me to understand.

TAD: Glywest ti, Marged. Dyna'r ail dro heno ini gael hyna yn ein dannedd. Dim rhagor o'r gwaith yna cofia.

MAM: A dyna tithe'n gwneud hynny nawr.

TAD: Can you count in Welsh?

MAB: Un, dau, tri, pedwar, pump, chwech, saith, wyth, naw, deg.

(*Y mae'r fam yn gwenu*).

TAD: Good boy. Wot else can you do?

TORIAD DYDD

MAB: I'll show you. You stand there as if you was in front of the class. You're my teacher, see, and I'm sitting 'ere in my desk. Now you tell me, "Thomas Henry Jones, agorweh y drws."

TAD (*yn ffug awdurdodol a difrifol*): Thomas Henry Jones, agorweh y drws.

MAB (*yn hollol ddifrifol, ac yn gwneuthur yn unol â'r hyn a ddywed, eithr yn araf a gofalus*). Yr wyf yn codi. Yr wyf yn troi at y drws. Yr wyf yn cerdded at y drws. Yr wyf wrth y drws. Yr wyf yn mynd i agor y drws. Yr wyf yn cydio yn y - - - yn y - - - Oh I've forgotten that word now.

MAM: Latch, fachgen, latch.

MAB: No, no; latch is an English word.

TAD: There isn't a Welsh word for it.

MAB: Yes there is. Don't you know the Welsh word for latch?

TAD: No not I.

MAB: Well you're a fine Welshman after all. Oh, I've got it. Yr wyf yn cydio yn y glicied. Yr wyf yn agor y drws. Yr wyf wedi agor y drws.

(*Saif TOMI yn syth wrth y drws*).

TAD: Well done boy.

MAB: No, no; you ought to say "Rhagorol, rhagorol".

TAD: Rhagorol, Tomi.

(*Â'r TAD i eistedd wrth y tân gan ddisgwyl i Tomi ddychwelyd i'w lle.*)

MAM (*ymhen tipyn*): Well, are you going to keep me standing here all night?

TAD: Why? What 'ave I got to do now?

MAM: You don't seem to know much about it. Didn't you two ever have Welsh lessons in school?

TAD: No not I. I never 'ad a Welsh lesson in school.

MAM: Nor me neither.

MAM (*yn syn*): Never had a Welsh lesson in school! (*yn edrych yn anghrediniol ar y ddau*). Well, how did you learn it?

(*Syll y gwr a'r wraig ar ei gilydd yn anesmwyth*).

TAD: Glywest ti, Marged?

MAM: Do, William. Mae hi'n dechre mynd yn dyn arnom ni'n dau.

TAD (*dipyn yn sobr*): Never you mind about that now, Tomi bach. What 'ave I got to do next?

MAM: You must say: "Thomas Henry Jones, cauwch y drws" and when I've done that, "Ewch yn ôl i'ch lle."

TAD: Thomas Henry Jones, "cauwch y drws".

MAM: Yr wyf yn troi at y drws. Yr wyf yn mynd i gau y drws. Yr wyf yn cau y drws. Yr wyf wedi cau y drws.

TAD: Cer nôl i dy lle.

MAM: Why don't you say it properly? You say it, Mam.

MAM: Ewch yn ôl i'ch lle.

MAM: Yr wyf yn troi at fy lle. Yr wyf yn mynd i fy lle. Yr wyf wrth fy lle. Yr wyf yn mynd i eistedd yn fy lle. Yr wyf yn eistedd yn fy lle. Yr wyf wedi eistedd yn fy lle.

TAD: Da iawn.

MAM: Rhagorol.

MAM: Oh Daddy, Mr. Pritchard, the schoolmaster, is coming here tonight to see you.

TAD: What for?

MAM: I'm not sure. He's been going round the 'ouses lately. I think it's something about the Welsh.

TAD: Oh; who do learn Welsh to you?

MAM: Mr. Griffiths.

MAM: But I thought that Mr. Williams was your teacher.

MAM: Yes, in everything else. You see, it was like this. When they began to teach Welsh they took all the boys from Standard III. and Standard IV. who could speak Welsh or understand Welsh and put them together for the Welsh lesson. That's the Welsh section. Then the others, those who can't speak or understand Welsh—that's the English section and Mr. Griffiths is our teacher.

TAD (*yn gwylltu*): And do you mean to tell me that they put you in the English section!

MAM: Of course they did. I can't speak or understand Welsh. I'm not a Welsh boy.

TAD (*yn codi'n wyllt*): Not a Welsh boy! What are you then, Zulu or Esquimau? (*Yn llidiog iawn*) Don't you ever let me hear you saying that again!

MAM (*yn crio*): It isn't my fault, is it?

MAM (*yn mynd ato*): Dyna, dyna. (*Yn troi at ei gwr*) Cymer dithe bwyll nawr, William.

TAD: All right, all right, Tomi. (*Yn rhoi ei neisied iddo*) Hwre, sych dy lyged. (*Yr hogyn yn gwneud*) Sych dy drwyn, hefyd.

MAM (*heb orffen crio*): Yr wyf - - - yn sych - - - fy drwyn.

MAM: Yr wyf yn sychu fy nhrwyn.

MAM: Yr wyf - - yn sychu - - fy nhrwyn.

TAD: Wel, Marged, glywest ti'r fath beth erioed? Rhoi Tomi ni ymhlith y Saeson i ddysgu Cymrag - - - ar f'ened i!

(*Ergyd ar y drws. A'r wraig i'w agor.*)

YSGOLFEISTR: Nos dda Mrs. Jones.

MAM: Nosweth dda, Mr. Pritchard. Dewch mewn.

YSGOLFEISTR: Nos dda, Mr. Jones.

TAD (*dipyn yn sychlyd*) Nosweth dda.

MAM (*yn sychu cadair â'i ffedog*): Dewch ymlan, Mr. Pritchard, eisteddych.

YSGOLFEISTR: Na, eistedda i ddim, diolch ichi. Mae genni neges arbennig yma heno a rwy mewn tipyn o frys, gan fod genni sawl man arall i fynd iddo.

TAD: O'r gora, Mr. Pritchard, ond cyn mynd at y neges yna, rwy am gal gair gyda chi ar fater arall.

YSGOLFEISTR: Ie?

TAD: Pam ych chi wedi doddi Tomi ni ymhlith y Saeson i ddysgu Cymrag?

YSGOLFEISTR (*yn hamddenol, a chysgod o wên ar ei wyneb*): O - h, dych chi ddim yn fodlon mod i wedi gwneud hynny!

TAD: Och chi'n disgwyl y byddwn i'n fodlon! Beth ych chi'n feddwl wy? Dyma fi yn Gymro i'r carn, yn fab i Gymro a Chymraes, ac yn gallu siarad Cymrag cystal â'r cyffredin, a dweud y lleia, a dyna'r wraig wedyn, yn Gymraes o'i chrud, a chithe - - - beth yw'ch meddwl chi'r dyn! D'oes dim synnwyr yn y peth.

YSGOLFEISTR: Yn ara bach, Mr. Jones, yn ara bach. Nid y chi na'r wraig rwy wedi ddodi yn yr adran Saesneg i ddysgu Cymraeg, ond Tomi.

TAD: Wel, mae Tomi'n fab i ni, yn enw'r bendith.

YSGOLFEISTR: Fe all hynny fod, ond 'd yw e'n deall dim nag yn medru siarad dim Cymraeg ond yr hyn y mae e wedi ei ddysgu yn yr ysgol.



MAM (*yn ddwys*): Ond Mr. Pritchard, Cymro yw Tomi bach ni.

YSGOLFEISTR: Ie, ie: Cymro yw Tomi. Pan gychwynwyd dysgu Cymraeg yn yr ysgol roedd genni problem ddyrus iawn i'w hwynebu. Roedd genni rai plant yn medru siarad Cymraeg yn rhydd ac yn rhwydd. Yr oedd yna ereill yn deall yr iaith ond heb fedru ei siarad hi. Roedd yna nifer wedyn yn Gymry o ran gwaed, a Tomi yn eu plith, heb fedru siarad na deall Cymraeg, a Saeson bach uniaith oedd y gweddill o aelwydydd hollol Saesneg. Doedd genni ddim i'w wneud ond casglu'r plant oedd yn medru siarad neu ddeall yr iaith at ei gilydd a gwneud dosbarth ohonynhw, a gosod y gweddill, yn Gymry ac yn Saeson mewn adran arall.

TAD: Felny, ynte, ymblith y Saeson y bydd Tomi, tra bydd e'n yr ysgol.

YSGOLFEISTR: Y mae hynny yn dibynnu i raddau mawr arnoch chi a Mrs. Jones. Rwy am wneud bargaen â chi'ch dau heno. Y mae genni rai degau o blant yn dod o aelwydydd tebig i hon, a phob un ohonynhw mewn adran Saesneg. Rwy wedi bod eisoes yn gweld rhai o'r rhieni a gwneud cytundeb â nhw. Siaradweh chi Gymraeg â Thomi ar yr aelwyd, ac ymhen y flwyddyn neu lai na hynny falle, mwy na thebig y galla'i ddodi Tomi mewn adran Gymraeg.

TAD: Wel, mae yna reswm yn yr hyn ych chi'n ddweud, Mr. Pritchard, ond wedi'r cwbl, pwy wnaeth Sais o Tomi? Roedd y groten yna'n gallu siarad Cymraeg yn iawn nes bo hi'n bum mlwydd oed. Wedyn fe aeth i'r ysgol, a chyn pen tri mis yr oedd hi'n Saesnes rhonc na chaen ni air o Gymraeg ganddi. Pan ddaeth Tomi, doedd dim gobeth gyda ni ei gadw e'n Gymro a'r groten

yn siarad Saesneg. Ie, yr ysgol wnaeth Saeson o'n plant ni.

YSGOLFEISTR: Ni gydnabyddwn i'r ysgol fod ar fai, ar fai mawr hefyd, ond ar yr un pryd, 'd allweh chi'ch dau ddim dweud eich bod chi'n hollol rydd, oherwydd y mae yna rieni, heb fod yn ddim gwell Cymry na chi, sydd wedi llwyddo i gadw'r iaith ar yr aelwyd.

(*Daw Tomi i mewn â choed tân*).

TAD: Oes y mae yna rai. (*Yn troi at yr hogyn*) Tomi, put them sticks over by there.

(*Saif y meist'r yn syn*).

YSGOLFEISTR (*wedi ei gynhyrfu*): Oes, a fe fyddai'n llawer gwell ar les Tomi petaech chithe wedi gwneud yr un peth. Ydych chi'n sylweddoli beth ddywedsoch chi nawr wrth Tomi? "Put them sticks by there."

TAD (*heb ddeall*): Pam, beth sydd o'i le yn hynny?

YSGOLFEISTR: Tommy, get me your home-work book. I want to see that exercise I marked for you this morning.

(*Estyn Tomi y llyfr iddo*).

Gwrandeweh: Dyma frawddeg o stori fach a ysgrifennodd Tomi neithiwr, "And the fairy told the little girl, 'Don't leave them flowers by there'."

(*Dengys y frawddeg i'r gwr a daw'r wraig hithau i edrych arni*).

TAD: Beth sy' o'i le, Mr. Pritchard.

MAM (*yn sylflu*): Pam ych 'chi'n marco'r gair yna'n wrong? T-h-e-m—them, y mae hyna'n iawn, ond yw e?

TAD: A b-y—by, dyna'r ffordd i spelian *by*.

YSGOLFEISTR: Oh, y mae'r ddau air wedi'u spelio'n iawn.

TAD: Wel, beth sy o'i le, ynte?

YSGOLFEISTR: Wyddoch chi ddim?

TAD: Na wn i.

MAM: Na finne chwaith.

YSGOLFEISTR: Fe'ch creda i chi'n rhwydd. Petawn i'n sgrifennu brawddeg Gymraeg anghywir fan hyn nawr, mwy na thebig y gallech chi ei chywiro hi, heb fedru rhoi llawer o reswm dros hynny, ond fe fyddech yn teimlo ei bod hi'n anghywir a gwybod beth fyddde'n iawn. Welwch chi, y mae yna un peth nad ych chi'ch dau erioed wedi ei sylweddoli, sef yw hynny, bod eich Cymraeg chi'n ddigon gwell na'ch Saesneg chi.

TAD (*yn betrus*): Cymrag Marged a fi'n well na'n Sisnag ni!

YSGOLFEISTR: Ydi, yn anrhaethol well. Gwrandewch nawr o ddifri. Y mae yna ddigon o Saesneg gwael yn yr ardal yma gan bobl heb fedru yr un gair o Gymraeg,— 'd oes mo'r help am hynny—ond pan fo Cymry glân fel chi yn llabyddio'r Saesneg yng nghlyw'r plant ar yr aelwyd, y mae hynny'n fwy na alla i ei ddal. Nid felly y mae hi bob amser, mi wn, ond dyna'r gwir yn aml iawn.

TAD: 'R ych chi'n llym, Mr. Pritchard.

YSGOLFEISTR: Falle mod i, ond dwy i ddim yn anheg. Siaradwch chi Gymraeg â Thomi ar yr aelwyd a fe wnewch ddwy gymwynas bwysig â mi. Yn gyntaf, fe fyddwch yn help i'r athro sy'n ceisio dysgu Cymraeg iddo, ac yn help mawr hefyd. Yn ail, fe fydd gyda ni lai o waith yn yr ysgol i gywiro a diddymu gwallau mewn Saesneg y mae Tomi yn eu codi yma ar yr aelwyd gyda chi. 'R wyn mynd nawr, ond beth am y fargen yna?

TAD (*wedi eiliad o feddwl*): O'r gore, y mae'n fargen.

YSGOLFEISTR: A chithe Mrs. Jones?

MAM: Ydi, y mae hi yn fargen.

YSGOLFEISTR: Diolch yn fawr i chi.

MAM: Mr. Pritchard, glywsoch chi am yr hen wraig yna sy'n cerdded yr hewl gyda'r hwyr ac yn mynd o dŷ i dŷ?

YSGOLFEISTR: O do, fu hi yma?

MAM: Naddo, a dwy i ddim am i gweld hi chwaith. Chwilio am blant y mae hi bob amser, medde nhw.

YSGOLFEISTR: Does dim rhaid i chi ofni'r hen wraig, Mrs. Jones, os daw hi yma. Mwy na thebig y daw hi, oherwydd y mae hi wedi fy nilyn i i lawer man yn ddiweddar. Peidiwch â'i gwithch hi. Y mae hi'n hoff iawn o blant. Nos dda nawr.

TAD A MAM: Nos dda, Mr. Pritchard.

(YSGOLFEISTR *yn mynd*. *Y mae TOMI yn edrych yn ei lyfr*).

TAD (*yn edrych dros ysgwydd ei fab*): Show me that - - -

MAM: Dyna ti eto, gyda bod y dyn yn troi ei gefen.

TAD: Dangos yr essay yna i mi.

(*Yr HOGYN yn edrych ar ei DAD a cheisio ei ddeall*).

MAM: Say it again, Daddy.

TAD (*yn araf*): Dangos - yr - essay -

MAM (*yn torri ar ei draws*): You want to see that essay again. (*Yn troi'r dail*) Dyma'r essay.

TAD (*yn chwervthin*): Rhagorol Tomi, y mae dod i ti, fachgen! (*Yn darllen*) And the fairy told the little girl, "Dont leave them flowers by there." Wyddost ti beth sy o'i le fanna?

(*Yr HOGYN heb ddeall*).

MAM (*hithau, erbyn hyn, yn edrych dros ei ysgwydd gyda'r tad*): What's wrong about that Tomi?

MAM: You mustn't say "them flowers", but "those flowers" and you mustnt say "by there" but "there". "Dont leave those flowers there" See?

MAM: Wel ie, hefyd, erbyn meddwl.

TAD: Ha, ha, erbyn meddwl yn wir!

MAM: Bydd di ddistaw, da thi, dy Sisnag di sy gan Tomi yn 'i waith.

TAD: Ho yn wir, fy Sisnag i! Does dim lle gen ti i glochdan, fe fentra i fod yna ddigon o dy Sisnag ditha yma hefyd. What else can you do, Tomi?

MAM: Dyma ti eto.

TAD: Ond beth wnawn ni? Dyw'r crotyn ddim yn diall Cymraeg. (*Yn siarad yn araf*) Elli - di - ganu - yn - Gymraeg?

MAM: Canu - sing? Yes.

TAD: Wel, gad ifi dy glywed di'n canu.

MAM: You want me to sing in Welsh.

TAD: Odw.

(*Saif TOMI ar ganol y llawr i ganu*. "Lliw Gwyn Rhosyn yr Haf", *ond cyn iddo allu gorffen y pennill cyntaf dyry'r FAM ysgrech a neidia i ymaflyd ynddo*).

MAM (*yn wyllt*): William, wel di hi? Dyna hi, yn y ffenest?

TAD (*yn syn*): Pwy? Wela i neb.

MAM: Yr hen wraig. Y mae hi wedi mynd nawr. (*Saif y tri am ennyd heb symud*. *Yna daw dau ergyd pendant ar y drws*). 'Dyw hi ddim i ddod mewn yma, cofia. (*Yn dal yn dyn yn yr HOGYN*).

TAD (*yn symud tua'r drws*): Paid â gwylltu, ferch, paid â gwylltu. Gad ini weld pwy sydd yna. (*Egyr y drws*).

HEN WRAIG: Wnewch chi faddau i mi; dwy i ddim am aflonyddu arnoch, ond ai eich hogyn bach chi oedd yn canu nawr?

TAD : Ie.

HEN WRAIG : Gaf fi ddod mewn i'w glywed e os gwelwch chi'n dda ?

MAM : Na William, dyw hi ddim i ddod mewn yma.

HEN WRAIG : O peidiwch â ngwrthod i. Rwy wedi cael derbyniad mewn pedwar man o'r newydd heno, a chroeso mawr.

*(Symud y FAM yn nes i'r drws gan gadw'r HOGYN tucefn iddi).*

MAM : Beth ych chi'n mofyn ? Does yma ddim i'w roi ichi. Dynion tlawd yn ni.

HEN WRAIG : Fy merch annwyl i, nid cardota rwyf fi. Fe fyddaf fi'n arfer rhoi llawer mwy nag y byddaf yn ei dderbyn.

TAD : Beth yw'ch neges chi ynte ?

HEN WRAIG : Dim ond cael dod mewn ac aros gyda chi am dipyn ar yr aelwyd.

TAD : O'r gore, dewch mewn.

*(Daw'r HEN WRAIG i mewn. Gwisg fantell fawr a llaes sy'n ei gorchuddio bron yn gyfangwbl o'i choryn i'w thraed. Nid oes fawr o'i hwyneb i'w weled, oherwydd y mae'r fantell fel bargod dros ei thalcen. Y mae hynny o wallt sydd i'w weled ganddi yn wyn. Ymddengys yn hen iawn ac eto y mae yna urddas nodedig yn ei hosgo a'i cherrdediad. Ar y dechrau y mae ei llais yn wan, er yn glir ac yn felus i'r glust—rhywbeth dymunol iawn, ychydig yn uwch na sibrd).*

*(Dylid gwneuthur ffigiwr mor urddasol ag sy bosibl o'r wraig hon. Ni thâl taflu unrhyw fath o glogyn rywsut amdani. Dylid trefnu'r fantell yn ofalus yn ol y dull clasurol, yn addurnol a syml. Y mae hyn yn bwysig iawn).*

MAM *(wedi ymwroli tipyn)* : Dewch ymlaen i'r aelwyd. Eisteddwech.

HEN WRAIG : Diolch yn fawr. *(Yn eistedd).*

MAM : Dynnwch chi'ch clogyn ?

HEN WRAIG : Ddim ar unwaith, diolch i chi. Rwyf wedi bod allan yn yr oerfel yn ddiweddar a rwyn gorfod bod yn ofalus iawn. Wedi imi gynhesu tipyn efallai y gallaf ddiog y fantell.

TAD : Fuoeh chi'n galw mewn llawer o dai heno ?

HEN WRAIG : Do, ddwsin neu fwy. Dyma'r noson orau yr wyf wedi ei chael ers amser maith. Chauodd neb y drws yn fy wyneb, a fe ges i fynd â'r plant i'r gwely mewn sawl man heno.

MAM : Nid un o'r lle yma ych chi ?

HEN WRAIG : Mi fum i yn yr ardal yma flynyddoedd mawr yn ôl a thipyn o lewych arnai ond fe gollais lawer o fy meddiannau.

TAD : Colli ffortiwn, aie ? Pwy aeth a hi oddiarnoeh chi ?

HEN WRAIG : Fy mhlant i fy hun yn fwy na neb.

MAM : Dyna blant diddiolch a di-gwilydd.

TAD : Rwyn gyfarwydd iawn â'ch llais chi ond 'd alla i ddim meddwl pwy ych chi, chwaith.

HEN WRAIG : Fe fu amser pan y byddech chi'n clywed fy llais i o fore tan nos. Rwyn mynd nôl hymtheg mlynedd ar hugain a gweld aelwyd yn Sir Aberteifi. Y mae dau o'r plant, bachgen a merch yn chwarae wrth draed y fam sy'n gweu gerllaw'r tân tra mae'r hogyn ienga ar lin ei dad yn ceisio dysgu darllen Cymraeg. Elin oedd enw'r ferch, John oedd enw'r mab hynaf, a wyddoch chi beth oedd enw'r llall ?

TAD (*yn syn*) : Gwn. William oedd enw'r llall, (*yn sobr*), a fi yw hwnnw.

HEN WRAIG : Yn gyfarwydd â fy llais i ! Glywsoch chi unrhyw lais ar yr aelwyd honno erioed ond fy llais i ? Ac nid yn unig ar yr aelwyd ond mewn capel, ffair a marchnad, beth arall glywech chi drwy gydol y dydd ? A phan fyddai'r bugail, gyda'r nos yn galw ar ei gwn ar ben y mynydd draw, llais pwy glywech chi ? Fy llais i. Gwelaf aelwyd arall, yng nghwm Tawe. Y mae yno bedwar o blant a dim ond mam. Nid yw'r ddau blentyn iengaf yn cofio dim am eu tad ond y mae yna gadair dderw hardd iawn yn y parlwr ac y mae'r fam wedi adrodd droion lawer, sut yr enillodd y tad y gadair mewn eisteddfod a dod â hi adre. Wn i yn y byd beth yw hanes y gadair erbyn hyn.

MAM (*yn ddwys*) : Y mae'r gadair - - - yma - - - gen i.

HEN WRAIG : Y mae'r gadair yma gennych chi. Ellwch chi sefyll o flaen y gadair yna, fy merch i, ac yna feddwl am eich plant, heb wrido ? Ond beth dâl siarad ? Rwyn anghofio'r plant. Nhw sy'n bwysig nawr. Gaf fi glywed yr hogyn yn canu pennill ? (*Wrth yr HOGYN*) Beth yw eich henw chi ?

MAB (*fel y dysgwyd ef yn yr ysgol*) : Thomas Henry Jones yw fy enw i.

HEN WRAIG : Wnewch chi ganu, Tomi ?

MAB : Canu - - sing ? (*yn edrych ar ei rieni*).

(*Amneidia ei FAM arno i ganu. Gwna yntau*).

Mi glywais fod yr hedydd  
Wedi marw ar y mynydd.  
Pe gwyddwn i mai gwir y geirie,  
Awn â gyfr o wŷr ac arfe  
I gyrchu corff yr hedydd adre.

(*Daw'r FERCH i mewn*).

HEN WRAIG : Swynol iawn, Tomi. A dyma'r ferch. Beth yw eich enw chi ?

MERCH (*yn ffurfiol*) : Olwen yw fy enw i.

HEN WRAIG : Olwen. Pedair meillionen wen a dyfai yn ôl ei throed pa le bynnag yr elai. Ac am hynny y gelwid hi Olwen. Ellwch chi ganu, Olwen ?

TAD : Na, 'd yw Olwen fawr iawn am ganu, ond y mae hi'n gallu adrodd.

HEN WRAIG : Da iawn, 'rych chi wedi dysgu iddi adrodd ?

TAD : Wel na, yn yr ysgol y dysgodd hi.

HEN WRAIG : Wnewch chi adrodd, Olwen.

MERCH (*yn edrych ar ei thad*): Recite? (*Yntau'n amneidio*). (*Edrydd Olwen*):

“TORIAD Y DYDD”.

'Rwy'n hoffi cofio'r amser,  
Ers llawer blwyddyn faith,  
Pan oedd pob Cymro'n Gymro gwir  
Yn caru'i wlad a'i iaith;  
Llefarai dewr arglwyddi  
Ein cadarn heniaith ni,  
Parablaï arglwyddesau heirdd  
Ei pheraidd eiriaui hi;  
Pan glywid yn y neuadd  
Y mwynion dannau mân,  
Mor fwyn yr eiliai gyda hwy  
Ragorol iaith y gân.  
Ond wedi hyn trychineb  
I'r hen Gymraeg a fu,  
Ymachlud wnaeth ei disglaer haul,  
Daeth arni hirnos ddu.

HEN WRAIG: Do, fu hi bron â darfod amdanai y pryd hwnnw.

TAD: Wel, y mae'n rhaid eich bod chi'n hen iawn.

HEN WRAIG: Yn hen! Ydwyf, 'rwyn hen iawn. Ond -- (*Cwyd yr hen wraig a chyda hynny, treigla'r fantell a'r gwallt gwyn i'r llawr a datguddio benyw ifanc brydferth iawn yn sefyll ar yr aelwyd, yn llawn nwyf a hoen*). - - - rwy'n ifanc hefyd. Ewch ymlaen, Olwen.

MERCH:

O'r plasau a'r neuaddau  
Fe'i gyrrwyd dan ei chlais;

Arglwyddi, arglwyddesau beilch  
Sisialodd iaith y Sais;  
A phrydferth iaith y delyn  
Fu'n erwydro'n wael ei ffawd,  
Ond clywid eto seiniau hoff  
Ym mwth y Cymro tlawd;  
Meithrinodd Gwerin Cymru  
Eu heniaith yn ei chlwy,  
Cadd drigo ar eu tafod fyth,  
Ac yn eu calon hwy—.

HEN WRAIG: Eto, Olwen, eto - - - - “Meithrinodd gwerin Cymru - -”

MERCH:

Meithrinodd gwerin Cymru  
Eu heniaith yn ei chlwy,

HEN WRAIG: Glywsoch chi? Dyna ichi amod mwya pendant fy nghadw i yn fyw, fy meithrin gan werin. Heb hynny, 'd allaf fi byth adnewyddu fy ieuencid, fel hyn, o oes i oes, heb fy meithrin gan werin. Ydych chi'n deall?

TAD: Ydw.

HEN WRAIG: Gaf fi orffen y darn, Olwen.

(*Edrydd gydag arddeliad mawr*).

Gogoniant mwy gaf eto  
A pharch yng Nghymru fydd;  
Mi welaf ddisglair oleu 'mlaen,  
A dyma doriad dydd!

LLEN.